



PQ Scenofest 2007

Cwadreniwm Prague (Prague Quadrennial) yw'r unig Arddangosfa o'i fath a'i faint yn y byd sy'n arddangos cynlluniau llwyfan a phensarniaeth theatr gyfoes. Mae'r arddangosfa, ynghyd â'r cyfres o weithgareddau sy'n mynd law yn llaw â hi, yn cynnig canolfan unigryw o seminarau, gweithdai a chyfarfodydd o ymarferwyr theatr o bedwar ban byd, yn ogystal â darparu cyfle i wyllo a chymharu'r datblygiadau ym myd y theatr – yn enwedig yr elfennau cynllunio.

Bydd **Adran Myfyrwyr Cwadreniwm Prague (PQ) a Scenofest 2007** yn darparu profiad anghofiadwy i fyfyrwyr, ymarferwyr ifainc ac ymarferwyr profiadol proffesiynol.

Mae **Scenofest** yn brosiect ar y cyd rhwng Comisiwn Addysg OISTAT a Sefydliad Theatr Prague. Gellir dod o hyd i rhagor o wybodaeth ynglyn â'r ddau gorff yma trwy ddilyn y dolenni canlynol:

Mae **Scenofest** ar agor i fyfyrwyr ac ymarferwyr ifainc gyda ddiddordeb mewn cynllunio ar gyfer perfformiadau, o bentsarniaeth adeilad y theatr, i'r gwisgoedd â wisgir, i'r hyn gaiff ei glywed a'i weld o fewn i'r gofod perfformio.

Bydd bod yn bresennol yn y **Scenofest** yn brofiad unigryw yn ei hun, yn cyflwyno'r cyfle i synhwyro'r posibiliadau creadigol ym myd cynllunio ar gyfer perfformiadau.

Bydd **gwirfoddoli** i fod yn ran o dîm rheoli creadigol neu gweinyddol Scenofest yn rhoi'r cyfle i chi fod yn aelod o dîm ymroddedig o fyfyrwyr, ymarferwyr ifainc, ymarferwyr proffesiynol profiadol ac addysgwyr yn rhannu'r gobaith o wneud Scenofest yn ddirwyddiad anghofiadwy.

Byddai bod yn rhan o un o arddangosfeydd, perfformiadau neu weithdai Scenofest yn eich cyflwyno i ffyrdd o weithio o led-led y byd, ffrindau newydd a chydweithredwyr rhyngwladol i'r dyfodol.

Ceir **manylion trylwyr** (yn Saesneg) ynglyn â chynnwys, cofrestru a cheisiadau Scenofest ar ei gwefan <http://www.scenofest.org>

Cysylltwch (yn Saesneg os yn bosib) â info@scenofest.org gydag unrhyw gwestiynnau.

Ceir **rhagor o wybodaeth** (yn Tsieceg neu'n Saesneg) ynglyn â Chwadreniwm Prague (PQ) ar ei gwefan <http://www.pq.cz>

Gwybodaeth Ymarferol

Dyddiadau Cwadrniwm Prague ac Arddangosfa Scenofest:

- Mehefin 14^{eg} i Fehefin 24^{ain} 2007

Lleoliad:

- Maes yr Arddangosfa (Výstavište)
Prague, Y Weriniaeth Tseciaidd

Pris:

- Pris mynychu'r Scenofest a Chwadrniwm Prague fydd **10 Ewro**. Bydd hyn yn caniatáu mynediad drwy gydol yr wyl. Bydd cymryd rhan mewn gweithgareddau prosiect neu weithdai yn costio 5 ewro yn ychwanegol.

Llety:

- Ni fyddwn yn darparu llety.
- Bydd Cwadrniwm Prague (PQ) yn cyhoeddi dolenni i gwmnïau â all gynnig llety yn y dyfodol agos.

I gadw mewn cysylltiad:

- Danfonwch ebost at info@scenofest.org gyda'r teitl "mailing list"
- Gall ysgolion neu grwpiau eraill ddanfon am restr tanysgrifio ar gyfer eu myfyrwyr neu chyfranogwyr. Gellir lawr-lwytho'r ffurflen o'r wefan.
- Gallwch gofrestru eich hun ar wefan Oistat www.oistat.org/registration

I arddangos yn yr Arddangosfa Ysgolion:

- Cysylltwch â'ch curadur cenedlaethol neu Cwadrniwm Prague (PQ) ar pq@theatre.cz

I gymryd rhan yn yr Arddangosfa Babel neu Adar:

- Lawr-lwythwch y ffurflen gais a'i danfon at application@scenofest.org
- Gorffennaf 2006 yw'r dyddiad cau

I gymryd rhan yn yr Arddangosfa Bensarnïaeth:

- Bydd y wybodaeth ar-lein cyn hir
- Chwefror 2007 bydd y dyddiad cau

I gymryd rhan mewn gweithdai:

- Bydd y manylion cais ar gael o'r wefan ym Medi 2006

I ymweld â Scenofest:

- Nid oes angen i chi wneud unrhywbeth, ond byddai o gymorth i ni petaech yn nodi diddordeb trwy danysgrifio i'r Rhestr Bost.

I gynnig darlith, gweithdy neu weithgaredd:

- Cysylltwch â info@scenofest.org

I noddi Scenofest:

- Cysylltwch â info@scenofest.org

I wirfoddoli ar gyfer y tîm gweinyddol, technegol neu creadigol:

- Cysylltwch â info@scenofest.org